Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cynllun Blynyddol 2026-27

Yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein strategaeth tymor hwy a'n dangosyddion perfformiad allweddol

Mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027 ac mae'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein strategaeth tymor hwy a'n dangosyddion perfformiad allweddol. Fe'i paratowyd ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Gosodir y Cynllun gerbron y Senedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn y Cynllun hwn, cyfeiriwn yn benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau pan fo angen manylder cyfreithiol.

**Os oes angen help arnoch gyda'r ddogfen hon**

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall, cysylltwch os gwelwch yn dda:

Ffoniwch ni ar: 02920 320 500

E-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith rydych chi'n ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Crynodeb o'n cynllun

## Ein diben

- Rhoi sicrwydd i bobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda
- Esbonio sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario
- Ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella

## Ein gweledigaeth

**Cynyddu ein heffaith drwy:**

- Manteisio'n llawn ar ein safbwynt, ein harbenigedd a'n dyfnder unigryw ar fewnwelediad
- Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol
- Cynyddu ein hamlygrwydd, dylanwad, a pherthnasedd
- Bod yn sefydliad sy'n esiampl ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

## Meysydd pwyslais

- Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel
- Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu
- Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

## Ein cynlluniau gwaith

**Cyflawni archwiliadau**
Byddwn yn cyflawni rhaglen gynhwysfawr o waith archwilio, yn unol â phwerau a dyletswyddau statudol yr Archwilydd Cyffredinol.

**Gwella busnes**
Er mwyn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth tymor hwy, byddwn yn gweithredu ar draws blaenoriaethau cynllunio busnes allweddol sy'n cyd-fynd â'n tri maes ffocws.

# Cynnwys

Rhagair 5

Pwy ydym ni a beth rydyn ni'n ei wneud 7

Ein gweledigaeth strategol a'n meysydd pwyslais 11

Ein rhaglenni gwaith: cyflawni archwiliadau 12

Ein rhaglenni gwaith: gwella busnes 21

Mesur ac adrodd ar ein perfformiad 24

## Atodiadau

1 Sut rydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru 30

2 Ein hamgylchedd gweithredu 31

3 Ein meysydd risg allweddol 32

4 Ein cyllid 34

# Rhagair

## Rydym yn falch o gyflwyno ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2026-27.

## We are pleased to present our Annual Plan for 2026-27.

Mae archwiliad cyhoeddus annibynnol yn tynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer gwella gwerth am arian, yn cefnogi llywodraethu da a rheolaeth ariannol, a gall ddarparu rhybudd cynnar o broblemau sy'n codi. Mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn disgrifio'r rhaglen archwilio gynhwysfawr y byddwn yn ei chyflawni dros y flwyddyn i ddod i roi'r wybodaeth a'r sicrwydd sydd eu hangen ar y cyhoedd, y Senedd, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'r dylanwadwyr ynghylch pa mor dda y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario.

Bydd 2026-27 yn flwyddyn o newid i Archwilio Cymru, lle gwelwn Adrian yn cwblhau ei dymor wyth mlynedd fel Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r Senedd wedi pleidleisio o blaid enwebu Catherine Mealing-Jones fel Archwilydd Cyffredinol nesaf Cymru. Rydym yn llongyfarch Catherine ac yn edrych ymlaen at weithio gyda hi i sicrhau pontio llyfn pan fydd Adrian yn trosglwyddo'r awenau ym mis Gorffennaf.

Y 12 mis nesaf hefyd yw blwyddyn olaf ein strategaeth gorfforaethol bum mlynedd bresennol. Rydym yn falch o'r cynnydd rydyn ni wedi'i wneud dros y pedair blynedd diwethaf tuag at gyflawni ein huchelgeisiau o hogi cyflawniad archwilio a chynyddu ein heffaith a'n gwelededd. Mae rhai cyflawniadau nodedig wedi'u nodi yn y ddogfen hon. Mae cyflawni'r blaenoriaethau sy'n weddill yn parhau i fod yn hollbwysig:

- Gweithio'n agos gyda'r sector llywodraeth leol i rannu arfer da a helpu i ailadeiladu proses cyfrifon gynaliadwy ac amserol.
- Byrhau'r amserlen ar gyfer cwblhau gwaith archwilio perfformiad lleol i sicrhau adroddiadau amserol ac effeithiol.
- Meithrin perthnasoedd effeithiol gyda'r Senedd newydd a Llywodraeth Cymru yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026.
- Cynyddu digideiddio archwilio trwy ddefnyddio deallusrwydd artiffisial ac offer eraill sy'n gwella ansawdd, cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ein gwaith.

Ni ellir cyflawni unrhyw un o'n hamcanion ar gyfer archwilio cyhoeddus o ansawdd uchel heb ein staff. Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn parhau i ddarparu cynnig cyflogaeth rhagorol, hyblyg sy'n ategu lles gweithwyr ac amgylchedd gwaith sy'n annog cydweithredu a gwaith o ansawdd uchel." Fel y gwnawn bob blwyddyn, mae'r Bwrdd hefyd wedi adolygu a diweddaru ein fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau cysylltiedig, i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn cyd-fynd yn llawn â'n hamcanion ac yn heriol iawn.



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru



**Dr Ian Rees**
Cadeirydd Swyddfa
Archwilio Cymru

# Pwy ydym ni a beth rydyn ni'n ei wneud

## Ein diben yw sicrhau pobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda, i egluro sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario, ac ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella

1 Mae archwiliad annibynnol o weithgareddau'r llywodraeth a'r defnydd o arian cyhoeddus yn elfen hanfodol o atebolrwydd democrataidd. Mae archwilwyr yn cyflawni eu gwaith ar ran y cyhoedd, yn ddi-dderbyn-wyneb, mewn ffordd sy'n wrthrychol ac yn ddiduedd.

2 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol sector cyhoeddus Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian y pleidleisir arno yn flynyddol gan y Senedd. Mae elfennau sylweddol o'r cyllid hwn yn cael eu trosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i'r GIG a llywodraeth leol yng Nghymru.

3 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu adnoddau, megis staff, er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac yn monitro ac yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Ar hyn o bryd mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi tua 300 o staff.

4 Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio tua £29 biliwn o incwm a gwariant. Mae **Atodiad 1** yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch sut rydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru. Mae ein gwaith yn cefnogi gwaith craffu effeithiol ar arian cyhoeddus gan y Senedd a chynrychiolwyr a etholwyd yn lleol.

## Rydym yn gwneud gwaith archwilio lleol a chenedlaethol mewn ystod eang o gyrff cyhoeddus

### Elfennau allweddol o'n gwaith

- Rhoi barn ynghylch a yw cyfrifon y sector cyhoeddus wedi'u paratoi'n briodol a rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ariannol
- Ystyried a yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy
- Archwilio pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y mae cyrff cyhoeddus wedi defnyddio eu hadnoddau (gwerth am arian)
- Dod i gasgliadau ynghylch a yw cyrff cyhoeddus wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth arfer eu swyddogaethau
- Ystyried a yw busnes cyhoeddus yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n bodloni disgwyliadau a safonau penodol
- Cynnal archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy

5 Gellir arfer y swyddogaethau archwilio hyn ar y cyd, os oes angen, ar draws gwahanol fathau o gyrff, i archwilio gwariant cyhoeddus ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.

6 Rydym yn nodi arferion da o ehangder llawn ein gwaith archwilio ac yn lledaenu hyn trwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys adroddiadau, blogiau, podlediadau a seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd.

## Rydym yn ymgymryd â'n gwaith yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol a safonau cydnabyddedig eraill

7 Mae ein Cod Ymarfer Archwilio yn rhagnodi'r ffordd y mae archwilio a rhai swyddogaethau eraill i'w cyflawni. Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i archwilwyr gydymffurfio â safonau archwilio a moesegol rhyngwladol a bod yn rhaid i'w gwaith fod o ansawdd uchel. Mae ein trefniadau ansawdd archwilio yn cyd-fynd â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) ar gyfer gwaith archwilio cyfrifon, safonau proffesiynol INTOSAI ar gyfer gwaith archwilio perfformiad, a safonau ansawdd a moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer pob gwaith.

8 Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU drwy'r Fforwm Archwilio Cyhoeddus, a gyda'n cydweithwyr yn y prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru, i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd archwilio cyhoeddus ac effaith cyfunol ein gwaith. Rydym hefyd yn falch o gynrychioli Cymru ar y llwyfan archwilio rhyngwladol, gan gynnwys mewn digwyddiadau EURORAI.

9 Rydym yn sefydliad hyfforddi achrededig ar gyfer tri o'r pedwar corff cyfrifyddiaeth proffesiynol. Mae ein holl hyfforddeion graddedig ar hyn o bryd yn astudio gyda Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr. Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o brentisiaethau, gan gynnwys prentisiaeth cyllid sy'n cefnogi astudio gyda'r Gymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu.

## Rydym yn gweithredu'n annibynnol ar y llywodraeth

10 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd gan y Senedd na'r llywodraeth wrth arfer ei swyddogaethau archwilio.

11 Yr Archwilydd Cyffredinol a'n Bwrdd sy'n gyfrifol am bennu a goruchwylio cyfeiriad strategol y sefydliad. Mae'r Bwrdd yn dwyn yr Archwilydd Cyffredinol i gyfrif yn ei rôl fel Prif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru ac yn ei gefnogi i gyflawni ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu. Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr yn ateb yn bersonol i Bwyllgor Cyllid y Senedd ar faterion megis cydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

12 Mae ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu. Ceir gwybodaeth fanylach am ein trefniadau llywodraethu yn adran Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon diweddaraf.

13 Mae ein hamgylchedd gweithredu yn cynnwys amrywiaeth o ffactorau a fydd yn dylanwadu ar gyflawni ein gwaith yn 2026-27 i raddau amrywiol. Mae **Atodiad 2** yn rhoi crynodeb o'r hyn a ystyriwn yn elfennau pwysig o'n hamgylchedd gweithredu presennol.

14 Wrth redeg ein busnes, rydym wedi ymrwymo i gymhwyso arferion gorau ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau yn gost-effeithiol. Nodir y meysydd allweddol lle gall risgiau godi a bygwth cyflawni ein gwaith yn llwyddiannus yn **Atodiad 3**, ochr yn ochr â chrynodeb lefel uchel o'n parodrwydd i dderbyn risg ym mhob un o'r meysydd hynny. Darperir rhagor o wybodaeth am ein cyllid yn ein Hamcangyfrif diweddaraf o Incwm a Threuliau ac yn **Atodiad 4**.

# Ein gweledigaeth strategol a'n meysydd pwyslais

## Ein gweledigaeth yw cynyddu ein heffaith drwy:

- Manteisio'n llawn ar ein safbwynt, ein harbenigedd a'n dyfnder unigryw ar fewnwelediad
- Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol
- Cynyddu ein hamlygrwydd, dylanwad, a pherthnasedd
- Bod yn sefydliad sy'n esiampl ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

15 Yn ein Strategaeth ar gyfer 2022 i 2027, rydym wedi nodi tri maes pwyslais lle byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu er mwyn helpu Archwilio Cymru i gyflawni ei weledigaeth gyffredinol.

## Ein meysydd pwyslais

- Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel
- Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu
- Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

# Ein rhaglenni gwaith: cyflawni archwiliadau

## Byddwn yn darparu rhaglen gynhwysfawr o waith archwilio, yn unol â phwerau a dyletswyddau statudol yr Archwilydd Cyffredinol

16 Ein busnes craidd yw cynnal rhaglen eang o waith archwilio i gyflawni pwerau a dyletswyddau statudol yr Archwilydd Cyffredinol. Mae ein rhaglen waith cyflawni archwilio yn cynnwys blaenoriaethau'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2026-27 wrth arfer ei swyddogaethau.

17 Mae ein gwaith archwilio yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi gwaith Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, sy'n craffu ar sut mae adnoddau yn cael eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gall ein gwaith hefyd lywio gwaith pwyllgorau eraill y Senedd, y mae eu hymrwymiadau ehangach yn cynnwys craffu ar bolisïau Llywodraeth Cymru, dwyn Gweinidogion i gyfrif, ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig.

18 Yn dilyn etholiadau'r Senedd 2026, byddwn yn ymgysylltu â Phwyllgorau'r Senedd i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith, ceisio barn ar gynnwys ein rhaglenni gwaith, a chefnogi eu swyddogaethau craffu.

19 Drwy gydol y flwyddyn, byddwn hefyd yn mynychu cyfarfodydd pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn rheolaidd i ddarparu sesiynau briffio ac adrodd ar ein gwaith archwilio.

# Ein gwaith craidd

Gwneud gwaith archwilio lleol mewn dros 800 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys:

- Archwiliadau o gyfrifon
- Gwaith archwilio perfformiad lleol
- Archwiliadau'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Cyflwyno rhaglen o astudiaethau cenedlaethol

Ardystio cynlluniau grant gwerth bron i £1.5 biliwn

Cefnogi gwaith craffu effeithiol gan gynnwys gwaith pwyllgorau'r Senedd

Rhannu arferion da a'r hyn rydym yn ei ddysgu drwy archwilio i gefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir

Hwyluso'r gwaith o ganfod twyll a gwall drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol

Cymeradwyo tua £2 biliwn o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis

# Byddwn yn gwneud gwaith lleol yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus

## Cyrff cyhoeddus a archwiliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn 2026-27 a'r mathau o waith lleol a wneir yn y cyrff hynny

| Cyrff cyhoeddus ac archwiliadau sy'n gysylltiedig | Archwilio'r cyfrifon | Gwaith archwilio perfformiad lleol[1] | Archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy[2] |
|---|---|---|---|
| Comisiwn y Senedd | ✓ | | |
| Llywodraeth Cymru[3] | ✓ | | ✓ |
| 10 Corff gweithredol Llywodraeth Cymru | ✓ | | ✓ |
| Awdurdod Cyllid Cymru gan gynnwys y datganiad treth | ✓ | | ✓ |
| Cwmnïau sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru[4] | ✓ | | ✓ |
| 7 Comisiynydd, Arolygiaeth a Rheoleiddiwr | ✓ | | |
| 7 Bwrdd Iechyd Lleol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Ymddiriedolaeth GIG a 2 Awdurdod Iechyd Arbennig | ✓ | ✓ | ✓ |
| 22 o Gynghorau (Awdurdodau Unedol) | ✓ | ✓ | ✓ |

1 Gwneir gwaith perfformiad lleol i fodloni dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod cyrff a archwilir wedi gwneud 'trefniadau priodol' ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Mae'r ddyletswydd honno'n berthnasol i bob corff llywodraeth leol a GIG, yn ogystal ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Yn achos cyrff llai, megis cynghorau cymuned, nid ydym yn gyffredinol yn ymgymryd â rhaglen waith perfformiad lleol benodol, ond yn hytrach rydym fel arfer yn ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol fel rhan o'r archwiliad o gyfrifon. Nid oes gan yr Archwilydd Cyffredinol ddyletswydd 'trefniadau priodol' mewn perthynas â'r rhan fwyaf o gyrff llywodraeth ganolog. Darperir gwaith archwilio perfformiad ar gyfer y sector hwnnw ar ffurf astudiaethau gwerth am arian a/neu archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy.

2 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, o leiaf unwaith bob pedair blynedd. Lle y bo modd, mae'r gwaith hwn wedi'i integreiddio'n llawn yn ein rhaglen archwilio perfformiad lleol.

3 Gan gynnwys archwiliadau cysylltiedig o dderbyniadau Cronfa Cymru a Chyfrif Taliadau, Derbyniadau Ardrethu Annomestig, a Chyfrifon Taliadau a Chyfrifon Cryno y GIG.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni dyletswyddau archwilio statudol mewn rhai cwmnïau sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru.

| Cyrff cyhoeddus ac archwiliadau sy’n gysylltiedig | Archwilio’r cyfrifon | Gwaith archwilio perfformiad lleol[1] | Archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy[2] |
|---|---|---|---|
| 4 Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl | ✓ | | |
| 3 Awdurdod Tân ac Achub | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9 Cronfa bensiwn | ✓ | | |
| 4 Cyd-bwyllgor Corfforedig | ✓ | | ✓ |
| Bargeinion twf dinas-ranbarth | ✓ | | |
| Nifer o gyrff llywodraeth leol llai gan gynnwys cyd-bwyllgorau ac awdurdodau harbwr | ✓ | | |
| Dros 730 o Gynghorau Tref a Chymuned | ✓ | | |

## Byddwn yn cynnal rhaglen o astudiaethau cenedlaethol ac yn paratoi allbynnau ychwanegol yn amlygu themâu cyffredin o'n gwaith archwilio lleol

20 Mae blaenraglen yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer archwilio perfformiad yn canolbwyntio ar bedair prif thema:

- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb
- Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur
- Cydnerthedd gwasanaeth a mynediad
- Gwasanaethau cyhoeddus a reolir yn dda

21 Mae'r tablau isod yn rhestru'r holl astudiaethau cenedlaethol gweithredol ac arfaethedig ar gyfer 2026-27, ar 31 Mawrth 2026. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwiliadau o faterion sy'n peri pryder i'r cyhoedd a nodwyd trwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda ni drwy ohebiaeth neu ddatgeliadau chwythu'r chwiban. Mae hefyd yn cynnwys archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy yn y sector llywodraeth ganolog.

22 Rydym yn adolygu ein blaenraglen yn rheolaidd, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff a archwilir i ymgysylltu â ni. Rydym yn sicrhau bod digon o hyblygrwydd fel y gallwn ymateb yn effeithiol i faterion sy'n dod i'r amlwg sy'n peri pryder i'r cyhoeddus neu'r senedd. Yn 2026-27, bydd hyn yn cynnwys ystyried datblygiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru a meysydd o ddiddordeb posibl ar gyfer Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus newydd yn dilyn etholiadau'r Senedd. Bydd hefyd yn cynnwys ystyried barn yr Archwilydd Cyffredinol newydd.

23 Efallai y bydd allbynnau eraill hefyd yn dod i'r amlwg o'n gwaith ehangach, gan gynnwys adrodd yn hydref 2026 ar rownd ddiweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol. Bydd ein Hadroddiad Interim 2026-27 yn darparu diweddariad a gall nodi prosiectau newydd pellach. Bydd gwaith arolygu rhanddeiliaid a chynulleidfa ehangach sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn llywio ein cynllunio parhaus.

## Arholiadau ac astudiaethau eisoes ar y gweill ar 31 Mawrth 2026[5]

| | Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb | Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur | Cydnerthedd y gwasanaeth a mynediad | Gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu rheoli'n dda |
|---|---|---|---|---|
| Effaith oedi rhyddhau o ysbytai a chynnydd wrth reoli galw am ofal brys ac argyfwng – allbwn cryno. | | | ✓ | ✓ |
| Cynnydd o ran adferiad gofal wedi'i gynllunio gan y GIG a lleihau'r ôl-groniad rhestr aros – allbwn cryno. | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Trefniadau ar gyfer defnyddio trawsnewid digidol i foderneiddio a gwella gwasanaethau'r GIG – gwaith archwilio lleol. | | | ✓ | ✓ |
| Rheoli costau a galw mewn gwasanaethau plant awdurdodau lleol. | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Goruchwyliaeth Medr o gynaliadwyedd ariannol addysg uwch ac addysg bellach. | | | ✓ | ✓ |
| Cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i fusnes – Cronfa Dyfodol yr Economi. | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Trefniadau cyllido llywodraeth leol. | | | | ✓ |
| Ymateb i bwysau gweithlu mewn llywodraeth leol – recriwtio a chadw. | | | ✓ | ✓ |
| Dulliau cyrff y GIG o wella gwasanaethau canser.[6] | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Pa mor dda y mae cyrff y GIG yn rheoli ystad y GIG. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

5 Rhestrir astudiaethau'n fras yn nhrefn eu cynnydd. Gall cryfder y cysylltiad â'r gwahanol themâu amrywio a byddai'n dibynnu ar y cwmpas terfynol lle mae'r gwaith yn dal i fod yn y cam cynllunio. Yn ymarferol, mae ein gwaith fel arfer yn cynnwys darpariaeth sy'n berthnasol i 'wasanaethau cyhoeddus a reolir yn dda'.

6 Gall unrhyw adroddiad cryno ar y gwaith archwilio lleol hwn hefyd gynnwys camau dilynol mewn ymateb i argymhellion ar lefel genedlaethol yn ein hadroddiad ar wasanaethau canser o fis Ionawr 2025 ymlaen.

| | Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb | Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur | Cydnerthedd y gwasanaeth a mynediad | Gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu rheoli'n dda |
|---|---|---|---|---|
| Cynnydd mewn buddsoddiad mewn adeiladau ysgolion a cholegau drwy'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Parodrwydd y sector cyhoeddus ar gyfer carbon sero net erbyn 2030 – camau dilynol. | | ✓ | | ✓ |
| Cymorth i wasanaethau rheilffyrdd – gwelliant Llinellau Craidd y Cymoedd. | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Gosod amcanion llesiant – Gofal Cymdeithasol Cymru. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Y gweithlu gwasanaeth cyhoeddus uwch, gan edrych ar faterion fel trosiant a recriwtio, arfarnu, dysgu a datblygu, neu gymorth llesiant. | ✓ | | | ✓ |
| Rheoli perygl llifogydd – camau dilynol. | | ✓ | | ✓ |
| Cyd-bwyllgorau Corfforedig – camau dilynol[7]. | | | | ✓ |
| Cefnogaeth awdurdod lleol ar gyfer rheoli ysgolion yn ariannol[8]. | | | | ✓ |

7 Wedi'i oedi hyd nes y ceir canlyniad adolygiad Llywodraeth Cymru.

8 Wedi'i oedi hyd nes y ceir canlyniad adolygiad Estyn.

## Gwaith newydd yr ydym yn bwriadu ei ddechrau yn 2026-27

| | Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb | Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur | Cydnerthedd y gwasanaeth a mynediad | Gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu rheoli'n dda |
|---|---|---|---|---|
| Mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Gwasanaethau yn ôl disgresiwn mewn llywodraeth leol. | ✓ | | ✓ | |
| Sut mae cynghorau yn ymateb i boblogaeth sy'n heneiddio. | ✓ | | ✓ | |
| GIG digidol – arweinyddiaeth systemau a systemau cenedlaethol, gan gynnwys caffael a chontractio. | | | ✓ | ✓ |
| Llywodraethu'r GIG – ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg. | | | | ✓ |
| Heriau iechyd cyhoeddus – rheoli ac atal diabetes. | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Cymorth i ffermwyr. | | ✓ | | ✓ |
| Gosod amcanion llesiant a chamau i gyflawni amcanion llesiant mewn gwahanol gyrff llywodraeth ganolog. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## Byddwn hefyd yn trefnu gyda chyrff penodol i ymgymryd â gwaith wedi'i gomisiynu

24 Trwy ein gwaith wedi'i gomisiynu, rydym yn darparu gwasanaethau i gyrff penodol. Yn 2026-27, bydd hyn yn cynnwys:

- Archwilio cyfrifon dosbarthu loteri Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru (ar ran y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol).
- Trwy gytundeb o dan Ddeddf Addysg 1997, darparu cymorth i Estyn i gefnogi arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol.
- Gweithredu fel Prif Archwilydd i Lywodraeth Anguilla ac archwilio ei chyfrifon.
- Archwilio elusennau llywodraeth leol yn annibynnol, a darparu cymorth technegol i Diriogaethau Tramor y DU.

25 Rydym yn ymwybodol y dylai pob gweithgaredd o'r fath fod yn hunangyllidol ac ni ddylid ei wneud er anfantais i'n gwaith archwilio craidd.

# Ein rhaglenni gwaith: gwella busnes

## Er mwyn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth tymor hwy, byddwn yn gweithredu ar draws blaenoriaethau cynllunio busnes allweddol yn unol â'n tri maes pwyslais

26 2026-27 yw'r flwyddyn olaf o Strategaeth bum mlynedd ar gyfer cyflawni ein gweledigaeth gyffredinol. Mae cyflawniadau nodedig yn ystod y pedair blynedd gyntaf o gyflawni'r strategaeth wedi'u nodi isod.

### Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

- Cyflwyno dull archwilio cyfrifon newydd a llwyfan tystiolaeth ddigidol, i gefnogi cydymffurfiaeth â safonau a'n dyheadau tymor hwy ar gyfer datblygu archwilio.
- Cytuno a gweithredu amserlen gyflawni tair blynedd gyda'r GIG a'r sectorau llywodraeth leol ar gyfer gwneud cynnydd cynyddol yn yr amserlen gymeradwyo ar gyfer archwiliadau cyfrifon.
- Llunio blaenraglen o waith archwilio perfformiad sy'n  dwyn ynghyd gwahanol elfennau o'n gwaith ac sydd a'r bwriad o wella prydlondeb ac effaith.
- Ymgorffori safonau proffesiynol INTOSAI wrth gyflawni ein gwaith archwilio perfformiad.
- Gweithio gyda Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) i fapio llwybrau sgiliau ar gyfer rolau archwilio cyfrifon penodol
- Gweithio gydag asiantaethau archwilio eraill y DU ar dreialu cymhwyster lefel tystysgrif archwilydd gwerth am arian y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) a datblygu cymhwyster lefel uwch newydd.

## Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu

- Lansio ac ymgorffori newidiadau i'n trefniadau ar gyfer paratoi a dylunio adroddiadau archwilio, gyda'r nod o wneud ein hadroddiadau'n fyrrach ac yn haws eu darllen a'u deall, fel eu bod yn diwallu'n well anghenion hygyrchedd ein cynulleidfa a gofynion ansawdd archwilio newydd.
- Cynnal adolygiad mewnol, gan weithio mewn partneriaeth â'r asiantaeth gyfathrebu FOLK, i fesur lefelau ymwybyddiaeth a chasglu canfyddiadau ar hygyrchedd, gwerth ac effaith ein gwaith.
- Adolygu ac uwchraddio cynnwys, cynllun a dyluniad gwefan Archwilio Cymru, gan ddilyn dull sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr a gyda datblygiadau pellach wedi'u cynllunio.
- Lansio cylchlythyr e-fwletin allanol wedi'i adnewyddu sy'n mynd allan i oddeutu 1,700 o bobl bob mis, gan eu hysbysu am newyddion, mewnwelediadau, swyddi a straeon diweddaraf Archwilio Cymru.

## Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

- Lansio strategaeth gweithlu sefydliad cyfan sy'n nodi gweledigaeth gyfannol tymor hwy ar gyfer sicrhau a datblygu'r adnoddau pobl angenrheidiol.
- Cwblhau symudiadau i swyddfeydd llai, gwerth gwell yn Ne, Gogledd a Gorllewin Cymru a lleihau ein teithio, costau cysylltiedig, ac effaith amgylcheddol yn sylweddol.
- Symud i ddull mwy cytbwys a chynhyrchiol o weithio hybrid gyda mwy o ddefnydd o swyddfeydd ar gyfer gweithio tîm a chydweithio.
- Lansio Polisi Deallusrwydd Artiffisial a Mentrau Digidol newydd a rhedeg menter i archwilio'r defnydd posibl o Microsoft Copilot i wella effeithlonrwydd, cynhyrchiant a hyder digidol ar draws y sefydliad.
- Gosod targedau arbedion heriol yn ein Hamcangyfrifon a rhoi grŵp cynaliadwyedd ariannol ar waith sy'n canolbwyntio ar nodi opsiynau arloesol i gyflawni arbedion yn y dyfodol.

27 On the following pages, we set out our business planning priorities for 2026-27, aligned with the strategic areas of focus to which they relate. Since project delivery in some of these priority areas extends beyond 2026-27, we have provided an illustration of the planned timeframes for delivery for each priority, subject to the outcomes from a scheduled review of our longer-term strategy.

28 Our business improvement work programme comprises the Wales Audit Office's priorities for 2026-27 in exercising its functions.

## Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

| Blaenoriaethau | Sut beth fydd llwyddiant | Amserlen ar gyfer cyflawni 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|
| Dod â'r amserlen ar gyfer cyflawni gwaith archwilio cyfrifon llywodraeth leol ymlaen i 30 Medi[9] ac ymgysylltu'n rhagweithiol â'r sector i rannu arferion gorau. | Ar gyfer cyrff lle mae hanes cryf o gyfrifon drafft a phapurau gwaith o ansawdd uchel, mae'r gwaith archwilio ar gyfrifon 2025-26 wedi'i gwblhau erbyn 30 Medi.<br>Ar gyfer cyrff sy'n wynebu heriau parhaus, cytunir ar gynlluniau adfer wedi'u teilwra gyda dyddiadau cau cadarn gydag uwch arweinwyr i ysgogi gwelliant.<br>Ymgysylltu rhagweithiol â Chymdeithas Trysoryddion Cymru a chyflwyno digwyddiadau lleol lle rhennir mewnwelediad archwilio ac arferion gorau. | | |
| Byrhau'r ffrâm amser ar gyfer cwblhau gwaith archwilio perfformiad lleol, fel bod yr holl waith yn cael ei gwblhau o fewn tri mis i ddiwedd y flwyddyn y mae'r cynllun archwilio yn ymwneud â hi. | Erbyn mis Medi 2026, rydym yn cwblhau ein cynllun tair blynedd i glirio ôl-groniadau ar ôl y pandemig yn ein rhaglenni gwaith archwilio perfformiad lleol ar gyfer llywodraeth leol a'r GIG.<br>Erbyn 2027, rydym yn cwblhau'r holl waith lleol a gynlluniwyd yn gyson erbyn y dyddiad cau optimwm ar gyfer sicrhau adroddiadau amserol ac effeithiol (31 Mawrth ar gyfer y GIG a 30 Mehefin ar gyfer llywodraeth leol). | | |

9 Equivalent 2024-25 accounts deadline was 31 October

## Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu

| Blaenoriaeth | Sut beth fydd llwyddiant | Amserlen ar gyfer cyflawni 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|
| Meithrin perthnasoedd effeithiol gyda'r Senedd newydd a Llywodraeth Cymru yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026. | Mae ein sefyllfa fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol yn cael ei gryfhau, gyda lefelau uchel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n rôl ymhlith Aelodau'r Senedd a Gweinidogion Cymru.<br>Yn dilyn etholiadau 2026, mae'r allbynnau a'r mewnwelediad o'n gwaith yn amlwg wrth lunio gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus a chraffu effeithiol. | | |

## Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

| Blaenoriaethau | Sut beth fydd llwyddiant | Amserlen ar gyfer cyflawni 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|
| Cynyddu digideiddio archwilio trwy ddefnyddio deallusrwydd artiffisial ac offer digidol eraill sy'n gwella ansawdd, cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ein gwaith. | Ystod eang o offer digidol integredig sy'n gweithio'n effeithiol ar draws pob maes.<br>Diwylliant sy'n cael ei nodweddu gan arloesedd ac awydd i fabwysiadu technolegau newydd.<br>Staff sy'n hyderus ac yn fedrus wrth ddefnyddio offer newydd a phresennol.<br>Tystiolaeth bod technoleg yn darparu manteision clir mewn ansawdd archwilio a chynhyrchiant.<br>Swyddfa archwilio fodern sy'n parhau i ddatblygu'n gyfochrog â datblygiadau digidol yn y proffesiwn archwilio a'r sector cyhoeddus ehangach. | | |

# Mesur ac adrodd ar ein perfformiad

29 Yn 2026-27, byddwn yn parhau i ddefnyddio dulliau meintiol ac ansoddol i fesur, adrodd a myfyrio ar ein perfformiad, ein gwerth am arian a'n risgiau, ac i geisio tystiolaeth ar effaith ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys adrodd rheolaidd i'n Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'n Bwrdd ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein strategaeth a chyflawni ein targedau dangosyddion perfformiad allweddol (DPA). Bydd hefyd yn cynnwys adroddiadau archwilio mewnol i'n Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

30 Rydym wedi nodi cyfres o DPAau lefel uchel a fydd yn ein helpu i fesur cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein gweledigaeth gyffredinol. Byddwn yn rhoi pwyslais ar werthuso ein cyfeiriad teithio a chyflymder y gwelliannau, ynghyd â chymharu â meincnodi priodol.

31 Byddwn yn adrodd ar ein perfformiad yn allanol drwy ein Hadroddiad Interim a'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon, a thrwy ddarparu tystiolaeth yng nghyfarfodydd Pwyllgor Cyllid y Senedd. Mae ein DPAau yn rhan o gyfres ehangach o ddangosyddion perfformiad gweithredol a chorfforaethol, y mae llawer ohonynt hefyd yn cael eu hadrodd yn allanol yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon a chyhoeddiadau corfforaethol eraill.

32 Wrth baratoi'r Cynllun hwn, gwnaethom adolygu ein targedau DPA gan gyfeirio at lefelau perfformiad canol y flwyddyn a gyhoeddwyd yn ein Hadroddiad Interim a meincnodau allanol priodol, er mwyn sicrhau aliniad â'n huchelgeisiau cyffredinol a'n strategaeth ar gyfer eu cyflawni.

# Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed ar gyfer 2025-26 | Targed ar gyfer 2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Archwilio cyfrifon | Cyfran y farn archwilio cyfrifon wedi'i chyflawni erbyn y terfyn amser statudol neu arfaethedig[10]. | 100% | 100% |
| 2 | Archwilio perfformiad | Cyfran y cynhyrchion archwilio perfformiad[11] wedi'u cyflawni yn unol â'r amserlen arfaethedig. | 90% | 90% |
| 3 | Ansawdd | Nifer yr archwiliadau a adolygwyd sy'n cael eu cyflawni yn unol â'r safonau ansawdd disgwyliedig[12]. | Pob archwiliad o'r sampl wedi'i asesu yn y ddau gategori ansawdd archwilio uchaf | Pob archwiliad o'r sampl wedi'i asesu yn y ddau gategori ansawdd archwilio uchaf |
| 4 | Hygrededd | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n ein hystyried yn gyfathrebwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraethu a stiwardiaeth arian cyhoeddus ac asedau. | O leiaf 90% | O leiaf 90% |
| 5 | Rhoi mewnwelediad | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, drwy ein gwaith ni, wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi'i gael fel arall. | O leiaf 80% | O leiaf 80% |

10 Pan fo cyrff a archwilir yn cyflwyno cyfrifon drafft o ansawdd da erbyn y dyddiad cau gofynnol ac yn ymateb mewn modd amserol i ymholiadau archwilio.

11 Allbynnau astudiaethau cenedlaethol a rhaglenni archwilio blynyddol ar gyfer cyrff unigol y GIG a llywodraeth leol. Mae gwaith mesur yn ystyried graddfa ac effaith unrhyw oedi y tu hwnt i amserlenni arfaethedig a pha un a ydynt yn ymwneud â ffactorau y tu allan i'n rheolaeth uniongyrchol.

12 Safon Ryngwladol ar Archwilio (DU) ar gyfer gwaith archwilio cyfrifon, safonau proffesiynol INTOSAI ar gyfer gwaith archwilio perfformiad, ac ansawdd a safonau moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer pob gwaith.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed ar gyfer 2025-26 | Targed ar gyfer 2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| 6 | Ysgogi gwelliannau | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. | O leiaf 80% | O leiaf 80% |
| 7 | Arbedion wedi'u nodi | Gwerth arbedion posibl, enillion cynhyrchiant a buddion ariannol eraill a nodwyd trwy ein gwaith. | At least £30 million during 2023-2026 | At least £30 million during 2024-2027 |

## Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed ar gyfer 2025-26 | Targed ar gyfer 2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| 8 | Digwyddiadau arfer da | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n dweud bod ein hallbynnau arfer da yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. | O leiaf 90% | O leiaf 90% |
| 9 | Ymweliadau â'r wefan | Nifer yr ymweliadau â'n gwefan lle mae o leiaf un weithred yn cael ei pherfformio, e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo. | 53,000 bob blwyddyn | 75,000 bob blwyddyn |
| 10 | Y cyfryngau cymdeithasol | Nifer yr ymgysylltiadau â'r cyfryngau cymdeithasol, h.y. rhyngweithio â'n postiadau er enghraifft eu hoffi, nodi sylw neu rannu. | 4,000 bob blwyddyn | 5,000 bob blwyddyn |
| 11 | Rhannu'r hyn rydym yn ei ddysgu drwy archwilio | Nifer yr achosion lle rydym yn cyflwyno'r hyn rydym yn ei ddysgu drwy archwilio i gynulleidfaoedd allanol[13]. | 50 bob blwyddyn | 50 bob blwyddyn |

13 Y tu hwnt i ymgysylltu arferol â chyrff a archwilir ac yn cynnwys, er enghraifft, mewn gweithgorau polisi allweddol neu ddigwyddiadau a gynhelir yn allanol.

## Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed ar gyfer 2025-26 | Targed ar gyfer 2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| 12 | Ymgysylltu â chyflogeion | Sgôr mynegai ymgysylltu arolwg staff blynyddol. | O leiaf y sgôr meincnod canolrifol ar gyfer arolwg diweddaraf y Gwasanaeth Sifil | O leiaf y sgôr meincnod canolrifol ar gyfer arolwg diweddaraf y Gwasanaeth Sifil |
| 13 | Trosiant | Cyfran y cyflogeion sy'n gadael Archwilio Cymru o'u gwirfodd bob blwyddyn. | Rhwng 5% a 10% | Llai na 10% |
| 14 | Absenoldeb oherwydd salwch | Cyfran o gyfanswm yr amser a gollwyd oherwydd absenoldeb oherwydd salwch. | Llai na 4% | Llai na 4% |
| 15 | Balans ariannol | Amrywiant mewn gwariant net o'r gyllideb a nodir yn ein Hamcangyfrif. | Llai na 2% o'r gyllideb gwariant gros | Tanwariant o lai na 2% o'r gyllideb |
| 16 | Arbedion costau | Gwerth arbedion costau yn ystod y flwyddyn a gyflawnwyd ar draws y busnes. | £200,000 fel y nodir yn ein Hamcangyfrif 2025-26 | £300,000 fel y nodir yn ein Hamcangyfrif 2026-27 |
| 17 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Cyfanswm yr allyriadau[14] sy'n cyfateb i $CO_2$. | Llai na 290 tunnell (gostyngiad o 50% ers gwaelodlin 2019-20) | 25 tunnell yn llai o 2025-26[15] |
| 18 | Cyfradd llwyddiant hyfforddeion | Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo am y tro cyntaf yn eu harholiadau lefel Broffesiynol ac Uwch gyda'r Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr. | O leiaf 90% | O leiaf 90% |

14 Not including supply chain emission estimates which are reported on separately in our annual Sustainability Report.

15 2025-26 wedi'i osod fel gwaelodlin newydd yn dilyn cyflwyno methodolegau adrodd Llywodraeth Cymru wedi'u diwygio a symud i fodel gweithio hybrid ôl-pandemig sefydlog.

# Atodiadau


1 Sut rydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru

2 Ein hamgylchedd gweithredu

3 Ein meysydd risg allweddol

4 Ein cyllid

# 1 Sut rydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru




Nodiadau i'w harddangos:

- Nid yw ffynonellau cyllid a amlygwyd yn yr arddangosyn yn cynnwys gweithgareddau cynhyrchu incwm mewn cyrff cyhoeddus unigol.
- Mae dyraniad yn y gyllideb gan Lywodraeth y DU yn cynnwys derbyniadau gan Swyddfa Cymru (£18.9 biliwn), Dosbarthiad CThEF o'r Gronfa Yswiriant Gwladol mewn perthynas â Nawdd Cymdeithasol (£1.7 biliwn), a Chyfraddau Treth Incwm Cymru (£3.5 biliwn)

# 2 Ein hamgylchedd gweithredu

### Rhai elfennau pwysig o'n hamgylchedd gweithredu presennol sy'n debygol o ddylanwadu ar gyflawni ein gwaith yn 2026-27



# 3 Ein meysydd risg allweddol

1-2

### Gwerth am arian

Rydym yn wrthwynebus i risgiau sy’n peryglu ein hymarfer safonau uchel o lywodraethu, ac yn ofalus wrth gymryd risgiau sy’n effeithio ar ein gallu i redeg y busnes yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol.

2-3

### Hygyrchedd

Rydym yn ofalus wrth symud oddi wrth egwyddorion cyfathrebu cydnabyddedig, yn enwedig pan fydd y rhain yn ymwneud â dyletswyddau statudol. Rydym yn fwy agored wrth wneud ein hallbynnau archwilio yn hygyrch i ystod eang o gynulleidfaoedd.

2-3

### Capasiti a Gallu

Rydym yn ofalus wrth arbrofi mewn meysydd y tu allan i’n busnes craidd ond rydym yn fwy agored i risg wrth ddenu, cadw a datblygu’r adnoddau staff sydd eu hangen i gyflawni ein rhaglenni gwaith.

2-3

### Arweinyddiaeth

Rydym yn ofalus wrth bennu cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad o gofio bod cymaint o swyddogaethau a dyletswyddau yn cael eu diffinio gan statud. Rydym yn fwy agored yn ein dull o gefnogi arloesedd ac ymgysylltu ac ysgogi staff.

1

### Ansawdd ac amseroldeb

Rydym yn wrthwynebol i risg sy’n peryglu cyflawniad gwaith amserol ac o ansawdd uchel.

2-3

### Proffil ac enw da

Rydym yn ofalus mewn meysydd a allai gael effaith negyddol ar enw da gyda rhanddeiliaid allweddol. Rydym yn fwy agored yn y camau a gymerwn i godi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a hygrededd ymhlith ystod o randdeiliaid allweddol.

1-3

### Technoleg

Rydym yn wrthwynebol i risg wrth drin gwybodaeth bersonol ac archwilio ac wrth sicrhau bod ein systemau TG yn parhau i fod yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn addas i’r diben. Rydym yn fwy agored i risg wrth archwilio’r defnydd o dechnoleg newydd i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwaith.

## Meysydd allweddol lle gall risgiau godi a bygwth y gwaith o gyflawni ein gwaith yn llwyddiannus

Mae ein parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer pob un o'r meysydd a ddiffiniwyd yn fras wedi'i nodi fel sgôr ar frig de pob blwch. Yn nodweddiadol mae'r parodrwydd i dderbyn risg yn cynnwys mwy nag un sgôr (gweler y diffiniadau isod) i adlewyrchu ein hawydd i fod yn fwy arloesol mewn meysydd penodol wrth geisio cyflawni ein nodau cyffredinol.

## Allwedd dyfarniadau parodrwydd i dderbyn risg:

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Amharod | Mae osgoi risg yn amcan allweddol. Dim ond risg gyfyngedig iawn yr ydym yn barod i'w derbyn. |
| 2 | Pwyllog | Ffafrio opsiynau diogel sydd â lefel isel o risg weddillol. Efallai mai dim ond potensial cyfyngedig ar gyfer gwobrwyon y mae'r opsiynau hyn yn ei gynnig. |
| 3 | Agored | Yn fodlon ystyried pob opsiwn posibl a dewis un sy'n taro cydbwysedd rhwng risg weddillol a lefel o wobrwyon a ddymunir. |
| 4 | Awchus | Yn awyddus i fod yn arloesol a dewis opsiynau sy'n cynnig gwobrwyon uchel er gwaethaf risg gynhenid fwy. |

Gellir dod o hyd i wybodaeth fanylach am ein fframwaith rheoli risg yn adran Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon diweddaraf.

# 4 Ein cyllid

Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd yn craffu ar ein defnydd o adnoddau, gan gynnwys drwy ystyried y Cynllun hwn, ein Hadroddiad Interim a'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Daw tua dwy ran o dair o'n cyllid o ffioedd a godir ar gyrff a archwilir yn unol â Chynllun Ffioedd a gymeradwywyd gan y Senedd. Mae'r rhan fwyaf o'r gweddill yn cynnwys cyllid cymeradwy gan Gronfa Gyfunol Cymru, y mae ein defnydd ohoni yn destun craffu gan y Bwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r adnoddau sydd ar gael, ac a allai ddod ar gael, i Swyddfa Archwilio Cymru yn 2026-27 wedi'u nodi yn ein Hamcangyfrif o Incwm a Threuliau diweddaraf. Mae'r Amcangyfrif yn nodi sut y dylid defnyddio'r adnoddau hynny wrth gyflawni rhaglenni gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru. Cafodd ei ystyried a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Tachwedd 2025.

Mae £24.5 miliwn o'n gwariant arfaethedig ar gyfer 2026-27 yn ymwneud ag adnoddau staffio sydd i'w darparu i'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei raglen waith. Dyma uchafswm yr adnoddau sydd ar gael, ac a all ddod ar gael, y rhagwelir y byddant yn cael eu dyrannu gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer cyflawni ei raglen waith. Mae £4.3 miliwn arall yn darparu ystod o wasanaethau eraill, gan gynnwys teithio a chynhaliaeth, dysgu a datblygu staff, buddsoddi cyfalaf, rheoli ein cynlluniau hyfforddeion a phrentisiaethau, a ffioedd proffesiynol.

Mae'r Bwrdd yn adolygu ein perfformiad ariannol bob tro y mae o'n cyfarfod drwy gydol y flwyddyn. Bob mis, mae ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn ystyried asesiad risg o'n hiechyd ariannol gyda'r bwriad o sicrhau gwerth am arian ac alldro diwedd blwyddyn o fewn y gyllideb.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas (y llawr gwaelod a’r llawr cyntaf)
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.